# Papur Pawb

Ebrill 2020 Rhif 458


## NEGES I'N DARLLENWYR

**O ganlyniad i'r argyfwng presennol, penderfynwyd na fyddem yn cyhoeddi fersiwn print Papur Pawb am y tro, ond bydd fersiwn digidol yn dilyn y patrwm arferol i'w weld ar wefan y papur (www.papurpawb.com).**

Gan fod modd lawrlwytho'r rhifyn digidol ar ffurf PDF a'i argraffu, hyderwn y bydd modd i ddarllenwyr sydd â'r offer priodol argraffu copïau i'w dosbarthu i deuluoedd neu ffrindiau sydd heb fynediad i'r We. O gysylltu â'r golygydd cyffredinol (golygydd@papurpawb.com) bydd modd hefyd dderbyn testun (yn unig) y papur fel atodiad e-bost petai hynny'n rhwyddach i rai darllenwyr. Bydd Papur Pawb sain ar gael yn ôl yr arfer. Gobeithiaf y byddwch yn deall paham yr ydym yn gweithredu fel hyn am y tro.

## Rhifyn Arbennig COVID-19

# A fydd bywyd byth yr un fath eto?

**Dyna'r cwestiwn sy'n dod i feddwl sawl un wrth ystyried yr argyfwng y cawn ein hunain ynddo. Mae Covid-19 yn enw sy'n creu arswyd am ei fod wedi lladd degau o filoedd o bobl ledled y byd. Fel y mae'r papur yn mynd i'r wasg, dywed y ffigurau swyddogol fod 193 wedi marw o'r feirws yng Nghymru a 3,500 wedi eu heintio. Ac mae'r niferoedd yn dal i gynyddu. Dyma'r gelyn anweledig sy'n taro'r ifanc fel yr hen; pobl iach a heini yn ogystal â phobl fregus a musgrell.**

Caewyd ysgol Tal-y-bont a chafodd y plant eu gwersi ar y We; caewyd drysau'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont, neuadd Llan-fach yn Nhre'r Ddôl, a'r Ystafell Haearn yn Eglwys-fach; caewyd drysau capeli ac eglwysi'r ardal am nad oes dim gwasanaethau am y tro; caewyd drysau'r Llew Du a'r Llew Gwyn yn Nhal-y-bont a'r Wild Fowler yn Nhre'r Ddôl; caewyd siop Richard y Gwallt a Gwasg y Lolfa, a daeth terfyn ar yr ein holl weithgareddau cymdeithasol. Mae'r heddlu lleol wedi pwysleisio'r angen i osgoi dilyn llwybrau ar hyd caeau amaethyddol.



Er gwaetha'r pandemig byd-eang, mae'r llun gwanwynol hwn gan Arvid Parry-Jones yn codi calon ac yn ein hatgoffa fod byd natur yn mynd yn ei flaen fel arfer.




Mae calendr digwyddiadau'r gwanwyn a'r haf wedi'i ddileu'n llwyr: fydd dim Sioe'r Gwanwyn yn Llanelwedd eleni; dim Eisteddfod yr Urdd; dim chwaraeon lleol na chenedlaethol; dim Sioe Fawr yn Llanelwedd, na dim Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Does dim penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch cynnal Sioe Tal-y-bont ddiwedd Awst.

Beth sy'n aros? Mae Siop Garej Tal-y-bont ar agor, ynghyd â'r Fferyllfa; mae Siop Cletwr ar agor, ac yn trefnu fod bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r sawl sy'n gaeth i'r tŷ ym mhlwyf Llangynfelyn. Un o'r pethau newydd a sefydlwyd yn fuan iawn ar ôl y cloi yw Grŵp Covid Tal-y-bont i gynorthwyo trigolion yr ardal ym mhob ffordd bosib.

Ein gobaith yw y daw bywyd yn ôl i drefn yn fuan. Er na fydd pethau byth yn union fel yr oeddynt cynt am gryn amser, y gobaith yw y bydd yr ysbryd cymunedol lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd ac yn helpu ei gilydd yn parhau i'n cynnal a'n cryfhau. Byddwn, gobeithio, yn gallu canolbwyntio mwy ar rai blaenoriaethau o hyn ymlaen – gwarchod yr amgylchedd a'r blaned, diogelu'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â meddwl am gynhyrchu mwy o fwyd yn lleol.


Mwy am effaith y Coronafeirws yn lleol......ar dudalen 6

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | (01970) 832560 |
| Tynnu lluniau: | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | GOHEBYDDION LLEOL | |
| Tal-y-bont: | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | 832592 |
| Maes-y-deri: | Karren Roberts | 07800 806578 |
| Parsel Henllys: | Lynwen Morgan | 832498 |
| Bont-goch: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Tre Taliesin: | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | 832230 |
| Tre'r-ddôl: | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | (01654) 781260 |
| Eglwysfach/Ffwrnais: | Non Griffiths | (01654) 781264 |
| Rhwydweithiau cymdeithasol: | Ceri Morgan | |
| | CYMDEITHAS PAPUR PAWB | |
| Cadeirydd: | Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont | 832697 |
| Is-gadeirydd: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Ysgrifennydd: | Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont | 832344 |
| Trysorydd: | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| Tanysgrifiadau: | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | 832448 |
| Hysbysebion: | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | 832076 |
| Plygu'r Papur: | Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins | |
| Dosbarthwyr: | Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams | |

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)
CYMRAEG


DYDDIADUR

Oherwydd yr amgylchiadau, nid oes dyddiadur y tro hwn. Er hynny, os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Carys Briddon, *carysbriddon@btinternet.com* (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

**GOLYGYDDION**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth, gyda Iolo yn dylunio. Diolch iddynt, yn arbennig dan yr amgylchiadau presennol. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Helen a Ceri (helen.iwan@btinternet.com). Y dyddiad cau yw 1 Mai a bydd y papur ar gael ar ein gwefan yn fuan wedyn.

## Llythyr

Awelon, Pentre-bach

Annwyl Olygydd,

Anfonaf lun o'r creadur cysglyd a ddaeth i'r ardd y dydd o'r blaen. Fel arfer dim ond yn y nos mae'n ymddangos, ond rhaid ei fod yn llwglyd iawn ar ôl gaeafgysgu. Fe ddringodd i mewn i lwyn y cwrens coch blodeuog a sglaffiodd y blodau pinc yn hapus braf!

Noder y gynffon flewog iawn. Dyma'r unig lygoden yng Nghymru sydd â chynffon fflyffi, ond mae'r pathew yn dal yn reit brin. Mae'n bwydo ar gnau cyll, aeron, mwyar duon a ffrwythau eraill ac yn gwneud nyth yng nghanol drain.

Mae'n werth ystyried rhoi cloch ar goler eich cath a gwyliwch yn ofalus os daw pws â llygoden i'r tŷ. Mae rhai pathewod braidd yn gysglyd o hyd!

Hwyl, Lisa Tomos



Yr ymwelydd bach bodlon


**Garej Davmor**

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278


**Y Parchg David Everton Baxter Francis (1945-2020)**

Trist yw cofnodi marwolaeth Y Parchg David E. Baxter Francis a fu'n ficer Elerch a Phenrhyn-coch rhwng 1985 a 1993. Fe'i ganwyd yng Nghaersallog (Salisbury) yn 1945, ac fe'i haddysgwyd yn Cliff College, Calver yn Swydd Derby a Choleg y Wesleaid, ym Mryste.

Bu'n gweithio am gyfnod yn Llyfgell St. Deiniol, Penarlâg, cyn ei ordeinio yn ddiacon yn yr Eglwys yng Nghymru yn 1977. Bu'n gurad ym mhlwyfi Llangyfelach a Llansamlet rhwng 1977 a 1980, cyn ei benodiad yn ficer Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanarmon Mynydd Mawr, Pennant, Hirnant a Llangynog. Apwyntiwyd ef yn ficer Elerch a Phenrhyn-coch yn 1985, gan wasanaethu yno hyd 1993, pan adawodd i ofalu am blwyfi cyfagos Y Borth, Eglwys-fach a Llangynfelyn. Ymddeolodd i Gegidfa, Powys gyda'i wraig Dorothy. Roedd ganddynt dair o ferched.Bu farw ar 3 Mawrth 2020, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys St. Oswallt, Croesoswallt ar 12 Mawrth, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanidloes ar 13 Mawrth.

REH




Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cletwr
Oriau agor y siop
Dydd Llun - Sadwrn 9-5 Dydd Sul - Ar gau
I gael gwybodaeth sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd am ein holl wasanaethau, cofrestrwch i'n rhestr e-bost yn **www.cletwr.com** a dilynwch ni ar **Facebook**.

# Pobl a Phethe

**Ap Gary**
Byddwch yn cofio'r stori am yr 'ap' arloesol ar gyfer fferyllwyr a ddatblygwyd gan Gary Jones, fferyllydd Tal-y-bont, a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr o *Bapur Pawb* ac a gafodd sylw ar newyddion S4C. Wel, mae 'na ddatblygiad syfrdanol wedi digwydd ers hynny wrth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r 'ap' ar gyfer fferyllwyr Cymru gyfan a hefyd mae cwmni enwog *Boots* am ddefnyddio'r ddyfais ar gyfer ei siopau ledled y wlad. Tipyn o anrhydedd.

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
Oherwydd yr argyfwng presennol ni chynhelir Caws, Gwin a Chân Eglwys Elerch eleni ar nos Wener 26 Mehefin. Fe'i gohiriwyd tan fis Mehefin 2021.

**Pen-blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Charlie Falzon, Gwêl-y-garn, Tre'r-ddôl, a ddathlodd ben-blwydd arbennig 26 Mawrth, er bod golwg mor ifanc arno!

**Cydymdeimlo**
Estynnir cydymdeimlad i deulu Liz Roberts, 12 Maesyderi, Tal-y-bont, ar golli mam Liz, sef Mrs Nancy Escom, o Kendal, Ardal y Llynnoedd, ddechrau mis Mawrth. Collwyd mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn.

Cydymdeimlwn â Brian Evans a'i deulu, Plas y Bryniau, Pentre-bach, ar farwolaeth mam Brian yn Aberystwyth.

Bydd llawer yn cofio Tilly a John Abner Jones a oedd yn byw yn Nhŷ Capel Nasareth, Tal-y-bont, tua deugain mlynedd yn ôl. Mae Tilly wedi marw ers tro a thrist iawn yw cofnodi bod John Abner hefyd wedi ein gadael yn 88 mlwydd oed.

**Cymwynaswraig**
Nid y coronafeirws yw'r unig bryder eleni i drigolion rhai cymunedau yng nghymoedd y De. Gyda'r sylw i gyd ar yr argyfwng presennol, ni ddylem anghofio fod effaith llifogydd Chwefror yn parhau. Un a fu'n gymorth mawr i'r rhai a ddioddefodd gymaint oedd Catrin M S Davies, Simne Wen, Tal-y-bont. Fe gasglodd hi bob math o eitemau defnyddiol gan nifer o bentrefwyr cymwynasgar a'u cludo mewn fan i'r cymoedd.

**Newyddion trist**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Dr Richard Edwards, Aberystwyth. Roedd rhai o'i gyndeidiau yn byw yn yr ardal hon ac roedd yn feddyg cydwybodol a hawddgar i nifer ohonom ym Meddygfa'r Llan, Aberystwyth. Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddo. Cydymdeimlwn yn fawr â'i wraig Dana, a Dafydd a Fflur y plant.



**Pen-blwydd arbennig Ieuan**
Ar waetha'r cyfyngiadau a'r orfodaeth i beidio â dod o fewn dwy fetr i'w gilydd fe lwyddodd cymdogion Ieuan Morgan, Rhos, Maes-y-felin, Tal-y-bont, i nodi achlysur ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar trwy ffurfio côr ar fyr rybudd i'w gyfarch. Mae Ieuan yn un o gymwynaswyr mawr y fro, trwy ei waith diflino gyda'r Neuadd Goffa, Capel Bethel a'r Treialon Cŵn Defaid, a nodi rhai mudiadau yn unig. Yng nghanol tristwch yr argyfwng presennol mae'n braf medru cofnodi achlysur hapus a digwyddiad sy'n dangos cymuned Tal-y-bont ar ei gorau. I wylio'r digwyddiad gallwch ymweld â gwefan BroAber.360.

**Ŵyr bach**
Llongyfarchiadau i Henry ac Emma Lamb, Glandŵr, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf, Benjamin. Pob dymuniad da i'r teulu bach yn Llundain, ond sydd wedi dychwelyd o'r ddinas i Landŵr erbyn hyn.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan iawn i David Evans, Tanllan, Llangynfelyn, ar ôl bod yn yr ysbyty yn dilyn damwain ar y fferm.

## Trwy Lygaid y Gwalch



Tra byddwn yn canu Calon Lân nerth ein pennau ar nos Iau i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ac eraill sy'n ymdrechu i gadw bywyd mor normal, beth am ystyried sefyllfa ein postmon lleol? Tan yn ddiweddar, i gadw ein llythyrau a'n parseli mor lân ag sy'n bosib, roedd yn ymweld â'r toiledau cyhoeddus yn y pentref yn gyson i olchi ei ddwylo. Erbyn hyn mae'n rhaid iddo dalu 20c bob tro am y fraint! Dim ond nodi.

* * * *

Tybed a ydych chi, fel finnau, wedi sylwi ar rai wynebau dieithr yn cerdded ar hyd ffyrdd y fro yn ystod yr wythnosau diwethaf? "Pwy ydi rheina?", gofynnais i'r cymydog, sy'n adnabod bron pawb yn y pentre. "Dim syniad," meddai, 'weles i rioed mohonyn nhw o'r blaen. Mae'n rhaid eu bod wedi dod i'w tŷ haf i hunanynysu rhag y feirws."

Chwarae teg iddyn nhw, meddwn i, am ddod i gefnogi'r economi leol drwy brynu bara a llaeth yn y garej a bwyd yn y siopau, ac i roi pwysau ychwanegol ar ein meddygfeydd lleol ac ar yr unig ysbyty cyffredinol sy'n gwasanaethu'r Canolbarth. Ie, chwarae teg iddyn nhw am feddwl amdanom!

# Ysgol

**Roedd yn deimlad annifyr a thrist iawn rhoi'r arwydd ar y gatiau i rybuddio pawb i beidio â defnyddio'r ysgol ar hyn o bryd. Mae hi wedi bod yn gyfnod rhyfedd iawn i bawb wrth i ni ddilyn y canllawiau ar gyfer ymateb i her y Coronafeirws a byw a gweithio mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r arfer. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu'r staff yn cydweithio gyda staff ysgolion y cylch a'r Awdurdod Addysg er mwyn darparu gofal plant i gefnogi gweithwyr allweddol yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.**

Ond mae staff yr Ysgol wedi hen arfer ag addasu eu harferion dros y blynyddoedd ac mae'r sefyllfa bresennol wedi rhoi her ychwanegol inni geisio sicrhau ein bod yn paratoi gwaith ar gyfer yn plant i'w gyflawni gartref. Pwy fyddai wedi meddwl ychydig wythnosau yn ôl y byddai geiriau fel uwchlwytho, '*Seesaw*' a '*Teams*' bellach yn gyfarwydd i staff, rhieni a phlant yr ysgol?

Mae wedi bod yn ysbrydoliaeth inni dderbyn cymaint o ymateb gan y plant ac maent wedi bod wth eu boddau'n arddangos eu doniau creadigol dros yr wythnosau diwethaf. Mae nifer wedi bod yn creu fideos i ddangos sut maent wedi llwyddo gyda heriau mathemategol a gwaith celf, ac mae eraill wedi creu fideos i wella ein ffitrwydd wrth greu *work-out* neu wrth wella ein medrau pêl-droed.

Does gennym ddim syniad pryd fydd drysau'r ysgol ar agor ar hyn o bryd, rhaid aros i weld. Hoffwn bwysleisio mai iechyd a lles pawb yw'r prif flaenoriaeth ar adeg fel hon, ond hoffwn dalu teyrnged i'r holl staff am ymateb mor adeiladol i'r sefyllfa a gwneud eu gorau glas dros blant yr ysgol. Cadwch yn ddiogel i gyd.



**Darllenwyr Prysur**
Roedd hi'n bleser cyflwyno tystysgrifau a medalau i gymaint o blant yr ysgol mewn gwasanaeth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r criw niferus yma am dderbyn her Llyfrgell Ceredigion i ddarllen cymaint o lyfrau â phosib dros y gwyliau. Da iawn chi i gyd.




**Clwb Codio**
Roedd hi'n hyfryd gweld y Clwb Codio cyntaf erioed yn dechrau yn yr ysgol yn ystod y mis. Diolch yn fawr i Miss Morris am sefydlu'r clwb. Mae'n amlwg fod y criw wedi cael hwyl dda arni.





**Clwb yr Urdd**
Roedd pwyslais ar greu gwaith celf yn yr Urdd yn ystod mis Mawrth. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn canolbwyntio ar eu gwaith ac roedden nhw'n falch iawn o'r hyn yr oedden nhw wedi ei gyflawni – a hynny mewn amser byr iawn.



**Sustrans**
Un o'r syniadau sydd wedi gwreiddio yn yr ysgol yw'r syniad o roi benthyg sgwteri'r ysgol am gyflawni gwaith da yn ystod yr wythnos.

Llongyfarchiadau i Cai, Ela, Matthias a Summer am fod yn Sêr y Sgwteri ym mis Mawrth.

# Tal-y-bont




**Cestyll a Dreigiau**
Roedd plant Blwyddyn 1 a 2 wrth eu boddau gyda'r thema yma a beth yn well i amddiffyn y marchogion rhag y dreigiau ond tariannau! Da iawn chi am ddylunio a chreu tariannau lliwgar yn eich heriau.

# CFfI Tal-y-bont




Rhai o actorion talentog cwmni drama clwb Tal-y-bont.


**Dramâu'r Ffermwyr Ifanc**
Un o'r digwyddiadau cymdeithasol olaf i'w cynnal yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont, cyn iddi gau ei drysau oherwydd argyfwng Covid-19, oedd noson o ddramâu rhai o glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Y tri chwmni drama a lwyfannodd y cynyrchiadau a fu'n rhan o'r gystadleuaeth ddrama sirol oedd cwmni CFfI Tal-y-bont, CFfI Llanddeiniol a chlwb CFfI Tregaron. Dyna wledd o adloniant a gafwyd wrth wylio talentau actio gwirioneddol wych. Mae'n bryd i gomisiynwyr a chynhyrchwyr S4C ddod allan i gefn gwlad Ceredigion i weld cymaint o actorion ifanc naturiol sydd yma. Mae lle i ddiolch hefyd i'r holl aelodau, y cyn-aelodau a'r rhieni a fu'n hyfforddi ac yn cynorthwyo gyda'r gwisgoedd a'r setiau. Diolch i gast cwmni Llanddeiniol a Thregaron a'u cefnogwyr am ddod i ymuno â chwmni Tal-y-bont i'n diddanu. Croesawyd y clybiau a'r gynulleidfa gan Sera Llywelyn, llywydd Clwb Tal-y-bont. Richard John oedd yn cyflwyno'r eitemau a Teleri Morgan oedd yn gwneud y diolchiadau.











Dyma luniau a anfonwyd gan rai o'r plant yn dangos i'r athrawon beth fuont yn ei wneud gartref. A ellwch chi ddyfalu pa ddihareb sydd yn y pedwerydd llun?

LRJ
Plymio cyffredinol a chynhaliaeth
Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

## Cadwch yn ddiogel

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

# Mwy am effaith y Coronafeirws yn lleol

**Gohirio priodasau**
Effeithiwyd ar nifer o ddigwyddiadau gan yr argyfwng. Bu'n rhaid gohirio o leiaf dair priodas a oedd i fod i'w cynnal.

**Caeau chwarae a mynwentydd**
Bu'n rhaid i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr roi cadwyn a chlo arni ar glwydi cae chwarae'r Cae Bach yn Nhal-y-bont ac ar glwyd cae chwarae Bont-goch er mwyn diogelu'r cyhoedd. Trefnodd Clerc y Cyngor Cymuned, Rab Jones, fod arwydd yn cael ei osod ar giatiau'r fynwent gyhoeddus yn Nhal-y-bont er mwyn hysbysu'r cyhoedd ynghylch y cyfarwyddyd a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn annog pobl i beidio ag ymweld â mynwentydd y sir ar Sul y Blodau er mwyn atal unrhyw deithiau nad ydynt yn hanfodol.

Mae hynny'n gyson â'r cyngor a gafwyd gan rai o'r enwadau crefyddol yn ogystal. Er enghraifft, cyhoeddodd Undeb yr Annibynwyr ar eu gwefan na ddylai neb ymweld â'r mynwentydd ar Sul y Blodau eleni rhag peryglu eu hiechyd eu hunain ac iechyd pobl eraill:
"Eleni, peidiwch â mynd i'r fynwent – arhoswch adref. Cofiwch am y rhai a aeth o'ch blaen yn eich cartrefi. Cynheuwch gannwyll, mynnwch foment dawel i gofio am y bobl hyfryd a fu'n rhan o'ch bywyd chi ar y ddaear hon unwaith ond sy'n parhau i fod yn rhan o'ch cynhysgaeth chi o hyd, heddiw." (https://annibynwyr.org/yma-mae-beddroddaun-tadau/)

Mae'n debyg na fydd yr ymgymerwr Selwyn Evans, Penrhyn-coch, yn darparu ceir ar gyfer galarwyr mewn angladdau yn ystod yr argyfwng, ac eithrio'r hers.

**Brodor yn methu dod adref**
Mae Dafydd Hughes, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont, wedi bod yn gweithio yn yr Almaen ac mae'n debyg nad yw'n medru dod adref oherwydd y cyfyngiadau ar deithio yn ystod yr argyfwng. Efallai ei bod yn llawer mwy diogel iddo aros yno am y tro.

**Grŵp Covid Tal-y-bont**
Gweithredwyd yn gyflym iawn yn Nhal-y-bont i sefydlu grŵp i gefnogi'r gymuned. Daeth criw bychan at ei gilydd o dan arweiniad Eryl Bray a Jenny Fothergill ac eraill i lunio taflen yn hysbysu'r trigolion fod Grŵp Covid-19 wedi'i sefydlu. Bu'r Lolfa mor garedig ag argraffu'r daflen ac fe'i dosbarthwyd i bob tŷ yn Nhal-y-bont a Phentre-bach erbyn dydd Sadwrn, 21 Mawrth. Sefydlwyd tudalen y grŵp ar *Facebook* ac mae pob math o wybodaeth leol a chyffredinol arni. Erbyn hyn mae rhwydwaith o gysylltiadau lleol wedi ei chreu, ac mae llawer o bobl wedi gwirfoddoli i gynnig cymorth.

Mae'r Grŵp yn barod i gynnig cymorth i bawb sydd ei angen, yn enwedig pobl sy'n methu â gadael eu cartref i nôl bwyd a nwyddau angenrheidiol oherwydd eu bod wedi cael cyngor gan eu meddyg i beidio â mynd allan. Fe all fod rhai pobl dros 70 oed sy'n gorfod hunanynysu ac nad oes ganddynt deulu sy'n byw yn agos. Mae croeso i bawb sydd mewn angen – a phawb hefyd sydd eisiau cynnig help – i gysyllu ag Eryl Bray ar 07794 180 928, neu Jenny Fothergill ar 07866 011 296, neu anfon e-bost at grwpcovidtalybont@gmail.com.


I'r rhai sydd heb fynediad i'r We, gallwch ffonio Eryl Bray ar ei rhif cartref hefyd, sef 832 568 neu Jenny Fothergill ar 832 544. Mae Alexis Flores a Linda Denton hefyd yn gweinyddu'r trefniadau.

Ar ran y Grŵp, dywedodd Eryl Bray ei bod yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cynnig eu henwau ar y rhestr o wirfoddolwyr, a'i neges bwysig yw hon: "Da chi, cadwch at y rheoliadau er mwyn helpu'r NHS a chadwch gartre. Os ydych eisiau help o gwbl, cysylltwch â fi neu Jenny yn y lle cyntaf a gallwn drefnu fod cymorth ar gael."

**Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr**
Er nad yw'r Cyngor wedi gallu cyfarfod ddiwedd Mawrth, mae'r cynghorwyr yn cadw golwg ar ddatblygiadau yn yr ardal ac yn rhoi'r hysbysiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar dudalen *Facebook* Grŵp Covid Tal-y-bont. Gall pobl gysylltu â'r Clerc, Rab Jones ar 07831 402 002 ac ar e-bost cyngorcam@gmail.com. Ceir rhestr o enwau a manylion cyswllt y cynghorwyr ar wefan y Cyngor, http://www.ceulanamaesmawr.org.uk.

**Ergyd i'r economi**
Mae'r argyfwng wedi taro economi gwledydd y byd. Yn ôl arbenigwyr ariannol, wynebwn ddirwasgiad economaidd gwaeth nag a welwyd yn 2008 pan siglwyd y byd cyfalafol i'w sail. Yma'n lleol, mae amryw o'n trigolion wedi eu hanfon i weithio o gartref, lle mae hynny'n bosibl, ond mae nifer hefyd yn wynebu dyfodol ansicr am fod eu cyflogaeth naill ai wedi dod i ben neu'n cael ei chynnal yn rhannol gan gynllun brys y Llywodraeth i ddiogelu swyddi. Gorfodwyd rhai pobl i gynnig am Gredyd Cynhwysol er mwyn cadw dau ben llinyn. Bu'n rhaid i'r Lolfa gau'r busnes cyhoeddi am y tro. Mae gofid ychwanegol i weithwyr hunangyflogedig, ac er bod ein hamaethwyr yn gallu dal ati yng nghanol prysurdeb y tymor wyna a'r lloia, a'r ffermydd godro lleol yn cynhyrchu llaeth, mae'r farchnad gig wedi plymio ac mae nifer o farchnadoedd da byw wedi cau am y tro. Mae pryder mawr am effaith hyn oll ar y sector amaeth yn ystod y misoedd nesaf.

**Yr hunangyflogedig yn methu gweithio**



Y saer coed Anthony Southgate yn gweithio gartref.

Ymhlith y bobl sydd wedi eu taro gan y cyfyngiadau yn sgil y feirws a'r gorchymyn i aros gartref y mae pobl hunangyflogedig. Mae'r sefyllfa'n peri gofid i nifer o bobl sy'n rhedeg eu busnes eu hunain yn lleol am na wyddant am ba hyd y bydd y gwaharddiad ar symud yn para. Gwyddom am amryw yn yr ardal hon sy'n seiri coed, plymwyr, adeiladwyr a thrydanwyr sydd wedi gorfod trafod sefyllfa ariannol eu busnes gyda'r banc a'r cyfrifydd. Mae arian yn ddyledus iddyn nhw am waith sydd wedi'i wneud, ond mae'n rhaid iddynt hwythau dalu eu dyledion fel pawb arall. Mae methu â gweithio yn taro'r llif arian.

Un y mae ei fywoliaeth wedi cael ei heffeithio gan yr ansicrwydd yw'r saer coed o Dal-y-bont, Anthony Southgate. Dywedodd Anthony wrth ohebydd *Papur Pawb* ei fod yn ansicr pryd y bydd yn gallu ailddechrau gweithio eto, er bod ganddo waith wedi'i gynllunio ymlaen llaw. Yr unig beth y mae wedi gallu ei wneud tra mae popeth ar stop yw aros gartref a gwneud ychydig o waith ar ei dŷ ei hun. Cafodd Anthony gyfle i wneud ambell jobyn gartref yr oedd wedi methu â chael cyfle i'w wneud cyn hyn am ei fod mor brysur. Er bod yr offer a'r celfi i gyd ganddo, mae'n anodd gorffen popeth gartref am nad yw'r cyflenwyr coed ar agor. Mae'n sefyllfa rwystredig a phryderus iddo ef ac i nifer fawr o bobl eraill.

**Diolch i holl weithwyr y Gwasanaeth Iechyd**





Am wyth o'r gloch bob nos Iau clywir sŵn cymeradwyo a sŵn sosbenni'n cael eu curo wrth i bobl ddangos eu gwerthfawrogiad o waith holl aelodau staff y Gwasanaeth Iechyd. Mae trefniant i bawb ganu'r anthem nos Lun nesaf 13 Ebrill am 8.00 pm (Radio Cymru yn darlledu'r achlysur). Dyma lun o'r llythrennau lliwgar 'DIOLCH' a ymddangosodd ar dalcen un tŷ yn Nhal-y-bont, neges sy'n cyfleu teimlad llawer ohonom. Dylem hefyd werthfawrogi cyfraniad y bobl sy'n cynnal y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Diolch i holl staff Cyngor Sir Ceredigion, yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal ac yn y Gwasanaethau Casglu Sbwriel.

# Cornel y Plant

**Dyma lun y gellwch ei argraffu a'i liwio ac yna ei osod yn y ffenest. Tasg fach i ddiddanu'r plant am fore cyfan, ac ambell oedolyn hefyd, wrth gwrs. Mae lliwio yn weithred sy'n lles i'r meddwl**.

Diolch i Helen Jones am ei ddarparu.




## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Marian Rees, Tal-y-llyn, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 10 Mawrth, a chafwyd ganddi hanes John Davies, Cenhadwr Môr y De. Gan fod Marian yn hanu o Lanbrynmair bu ganddi ddiddordeb yn hanes John Davies gan ei fod yntau hefyd yn hanu o sir Drefaldwyn. Clywsom fel y bu i Marian ail-fyw'r profiad o fynd i Tahiti rai blynyddoedd yn ôl i chwilio am fedd y Cenhadwr. Cafodd John Davies ei eni yn 1772 ar fferm Pendugwm, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, ac ar ôl iddo gael ychydig o addysg sefydlodd ysgol ei hunan yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Tra'n mynychu'r capel Methodistaidd lleol, clywodd yr alwad am athrawon a chenhadon i weithio ar ynys Tahiti ac ar ôl iddo wirfoddoli, cafodd ei dderbyn i fynd yno. Felly, ar 5 Mai 1800, cychwynnodd ef a'i wraig ar y fordaith i Tahiti, ac yno y bu am y 55 mlynedd nesaf. Bu'n arolygydd ar ysgol yn Papara, gan annog sefydlu ysgolion cenhadol yn Fiji hefyd. Dysgodd iaith y brodorion, a chyhoeddodd eiriadur a gramadeg yn iaith Tahiti, yn ogystal â nifer o weithiau eraill yn yr iaith honno. Er ei fod yn ddall am ddeng mlynedd olaf ei oes, parhaodd gyda'i waith, a bu farw ar 19 Awst 1855 a'i gladdu yn Tahiti. Diolchwyd yn gynnes i Marian am hanes diddorol iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jones.

Yn anffodus bu'n rhaid canslo cyfarfod olaf y Gymdeithas am eleni, sef te prynhawn ym Mhlas Dolguog ar 14 Ebrill.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Tylino Thai Trefechan
Trefechan Thai Massage
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
T 01970 832142 M 07703 169813
Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

# Dydd a Nos

**Dyma bennod 8 o'r stori dditectif gan Geraint Evans. Y tro hwn cawn dystiolaeth trydanwr y pentref.**

Bu'r ail rownd o holi o ddrws i ddrws yn Nôl-y-gaer yn fethiant. Cafwyd yr un tybiaethau, yr un hen glonc a'r un straeon di-sail. Pawb yn nabod Meurig Rhys, yn ei dderbyn fel person ychydig yn wahanol i weddill preswylwyr y pentref a neb yn ei adnabod go iawn. Am ei lofruddiaeth, roedd hwnna yn ddychrynllyd ac annisgwyl. Pethe fel 'na byth yn digwydd yn Nôl-y-gaer. Am y llofrudd, dim dowt. Y nyrs, y fenyw oedd yn cadw gofal, cadw tŷ ac yn ôl pob hanes yn cadw'r Athro yn gynnes ac yn hapus yn ei wely. Chwyddwyd yr amheuon gan y fyddin o ohebwyr a laniodd gyda rhai o'r trigolion yn fwy na pharod i gynnal cyfweliadau a bywiocáu'r stori am ddeg punt bach slei.

Eisteddai Teri tu allan i un o dafarnau'r pentref yn sipian hanner o Guinness yng ngwres haul gwantan un o brynhawniau olaf yr hydref. Yn ei barn hi roedd yr ymchwiliad yn boddi o dan domen o wybodaeth a oedd yn y pen draw yn arwain i nunlle. A oeddent gam yn nes at wybod ble'r oedd Benson? Nag oeddent. Yn fwy damniol, roedd Gareth wedi penderfynu treulio'r diwrnod yn Penlan mewn ymgais i dreiddio i feddylfryd y llofrudd. Rwtsh siwdo seicolegol a gwastraff amser. Llyncodd ddracht o'r cwrw, gwylio gŵr ifanc yn llwytho offer i fan a darllen y geiriau 'W. WILLIAMS TRYDANWR O FRI, Y TRYDANWR I CHI,' ar ochr y cerbyd.

Gorffennodd y gŵr y dasg a cherdded tuag ati. "Esgusodwch fi, Will Williams yw'r enw. O ni'n clywed chi'n holi yn y pyb. Bues i'n gweithio yn y tŷ lle lladdwyd y boi. Gosod switshys iselhau lefel y gole yn y prif stafelloedd a 'stafell wely y dyn ei hun."

Ar unwaith roedd Teri yn glustiau i gyd. "Pryd oedd hyn?"

"Yn gynharach eleni, mis Chwefror. Mr Rhys yn cael ei symud i 'stafell arall tra mod i'n gwneud y job. Golwg swrth arno, canlyniad y botel wisgi hanner gwag wrth ochr y gwely weden ni."

"Wnaethoch chi siarad â fe?"

"Dim gair. Rhybudd plaen gan y nyrs i beidio. Hi ffoniodd i drefnu, cwrdd â fi wrth y drws ffrynt a diflannu. Dweud bod angen gofal cyson ar Mr Rhys. Talu wedi i fi orffen, arian parod."

"A beth am y nyrs?"

"Rhywbeth Benson. Nid y bishyn berta', siarad yn fachog. Bron pob gair yn ordar, fi a Rhys. Tipyn o fadam, teyrn, ie dyna ni teyrn ac yn sicr ddim yn fenyw i'w chroesi."

Aeth Teri ar ei hunion i Penlan a chanfod y switshys yn y gegin, y lolfa a'r stydi. Trodd y botymau a gweld lefel y golau yn newid o'r llachar i'r gwan gyda'r olaf yn plymio'r 'stafell i fwrllwch. Dringodd y grisiau, croesi i 'stafell wely Rhys ac ailadrodd y weithred.

Safai Gareth wrth y ffenest a holodd yn hurt, "beth ti'n gwneud, danfon signal i rywun yn Aberdyfi?"

Esboniodd Teri a rhoi braslun o'r sgwrs gyda'r trydanwr. "Bach yn od nag yw e? Mynd i'r drafferth a'r gost o ail osod pob switsh?"

"Na, hawdd deall pam. Ni wedi clywed gan y meddyg a Dewi Roberts am bennau tost Meurig Rhys. Un o'r ffactorau all effeithio ar salwch fel 'na yw golau llachar."

"Os wyt ti'n mynnu. Rhywfaint mwy o ffeithiau am y nyrs..." Ni chafodd gyfle i orffen y frawddeg am i Gareth adael ar ras ac wrth i Teri gamu at y ffenest fe'i gwelodd yn rhedeg heibio ymylon y lawnt i dynnu sylw'r  tri oedd yn marchogaeth ceffylau ar y ffordd tu hwnt i'r dreif. Rhyngot ti a dy bethau, meddyliodd gan droi i sbecian unwaith yn rhagor ar y 'stafell wely. Roedd y cynfasau a'r gobennydd pinc yn dal yn eu lle a'r Beibl a'i adnod broffwydol yn agor ar yr un dudalen. Mewn chwilfrydedd agorodd ddrws y wardrob a syllu ar y siwtiau a'r siacedi yn hongian mewn rhes a chael ei llethu gan arogl y peli atal pryfed. Croesodd at y bwrdd gwisgo a dechrau twrio drwy'r droriau un ar ôl y llall. Nid oedd yn gwybod pam, wedi'r cyfan os oedd rhywbeth arwyddocaol yno byddai wedi'i ganfod gan y criw fforensig. Gwir y gair, dillad isaf, sanau, siwmperi a chasgliad o deis o'r oes o'r blaen. Aeth drwy'r cyfan a diawlio wrth iddi fethu â chau y drôr top. Tynnodd am 'nôl a rhyddhau'r drôr o'r dodrefnyn gan wacáu ei gynnwys ar lawr. Yna, ymhlith y sypyn o bapurach rhythodd ar y tiwbin aur a chymryd gofal i'w osod mewn macyn sidan ar gledr ei llaw. Lipstic yn ddiamau. Myfyriodd ac wrth edrych ar y drych uwchben dychmygodd yr Athro Emeritws Meurig Rhys yn sefyll yn yr union fan i osod y minlliw ar ei wefusau.

Clywodd sŵn camre ar y grisiau a rhuthrodd Gareth i mewn â'i wynt yn ei ddwrn. "Sgwrs ddiddorol gyda chriw y ceffylau. Reidio ger Penlan sawl gwaith yr wythnos a hynny ers dwy flynedd. Holi am rywun neu rywbeth anghyffredin a'r tri yn cytuno ar yr ateb. Ar ddiwrnodau cymylog y llenni ar gau, pob ffenest, adegau eraill llenni ar agor a'r troeon hynny, diwrnodau braf a'r haul ar ei gryfa."

"Sori, dwi ddim yn deall. Pan wnes i godi yr un pwynt am y switshys wnest ti wfftio'r syniad. Pam y newid?"

"O ni'n rong ac o gysylltu newid y golau tu mewn a thu allan rwy'n meddwl fod  Benson yn chwarae triciau dieflig. Yn benodol gwneud i Rhys gymysgu rhwng dydd a nos. Ti'n gweld? *Dydd a nos yr amgylchant hi ar ei muriau*, geiriau cyntaf yr adnod. Beth yw hwnna yn dy law di?"

Roedd Teri ar fin egluro pan welodd rwbiad coch ar waelod y drych. "Dewi Roberts yn dal o gwmpas?" Nodiodd Gareth. "Dere â fe 'ma ar unwaith."

Cyn gynted ag y cyrhaeddodd y swyddog fforensig pwyntiodd Teri at y rhwbiad. "Lipstic. Tybies i gychwyn mai Rhys oedd yn defnyddio'r stwff. O ni'n rong, ni gyd yn rong weithiau. Dwi'n credu fod y nyrs wedi sgwennu neges ar y drych i roi llond bola o ofn. Modd adfer y geiriau?"

Gwenodd Roberts, estyn i'w fag a chwistrellu hylif dros wyneb y drych. Ar ei orchymyn tynnwyd y llenni ac yn yr hanner tywyllwch ymddangosodd y llythrennau coch

MAE DUW YN GWELD POB PECHOD.

Hawlfraint © Geraint Evans

**Mae'r cyffro yn cynyddu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwylio allan am bennod 9 yn y rhifyn nesaf.**



# SUL Y BLODAU 1980

**Ddeugain mlynedd yn ôl, stori flaen *Papur Pawb* Ebrill 1980, oedd adroddiad ar un o'r digwyddiadau mwyaf dramatig yn hanes pentref digyffro Tal-y-bont. Yn gynnar iawn ar fore Sul y Blodau glaniodd haid o blismyn yn y pentref gan arestio Robat Gruffudd, Bryngwyn, a'i gludo i orsaf yr heddlu yn Llanelli. Dyma oedd rhan o gyrch 'Operation Tân' sef ymgais i ddal y rhai a fu'n gyfrifol am losgi tai haf yng Nghymru.**

Arestiwyd Enid, gwraig Robat, hefyd, gan adael eu tri mab bach dan ofal teuluoedd lleol. Y diwrnod canlynol, cipiwyd Glyn Parry, a oedd yn byw mewn fflat yn yr Emporiwm ar y pryd, a'i holi yng ngorsaf yr heddlu yn Aberystwyth.

Roedd trigolion y pentref wedi'u syfrdanu gan y cyrch, yn arbennig gan nad oedd gan yr heddlu ronyn o dystiolaeth yn erbyn y tri. Fe'u rhyddhawyd yn y pen draw yn ddigyhuddiad a beirniadwyd yr heddlu yn hallt am gyrch a ymdebygai i weithredoedd y Gestapo. Mae *Papur Pawb* wedi mynd ati i holi'r tri am eu profiadau. Diolch iddynt am gyfrannu.




**Plismyn yn ein hystafell wely**
Mae deugain mlynedd wedi mynd heibio ers i Robat a finne gael ein deffro am bump o'r gloch y bore. Sŵn mawr, golau glas, gweiddi a bygwth torri'r drws i lawr. Roedd yn ymweliad treisgar, gyda chwech o blismyn a dwy blismones yn ymddangos yn ein hystafell wely a Rob yn cael ei wthio'n ddiseremoni i gar heddlu yn ei byjamas fel y tybiais ar y pryd.

Roedden nhw'n arestio'r ddau ohonom, meddent, a finne'n methu deall beth oedd yn bod. Roedd yn anodd esbonio i'r plant pam fod heddlu yn y tŷ, ac am beth roedden nhw'n chwilio yn y bocs teganau ac yn set gemegol Einion – ac yn fy nroriau personol i. Mwy anodd byth oedd egluro i'r tri phlentyn pam fod yn rhaid eu gadael, heb eu rhieni, gyda gwahanol ffrindiau yn y pentre.

Y Lolfa oedd eu cyrchfan nesaf gyda'i stôr o wybodaeth ar bapur ac ar ddisg, ac mi fydden nhw'n cadw llond bocs o'r defnyddiau yma am chwe mis cyn eu dychwelyd. Buon nhw yno am rai oriau cyn mynd â fi i gell yn swyddfa'r heddlu, Aberystwyth. Cefais fy holi am bob math o bethau dibwys yn ymwneud ag arferion fy ngŵr, a finne heb ddeall eu bod yn defnyddio fy atebion i'w ddychryn ef a gwneud iddo feddwl eu bod wedi treiddio i mewn i'w fywyd.

Dywedwyd wrthyf fod Rob yn swyddfa'r heddlu yn Llanelli ond ni ddywedwyd wrtho ef fy mod i dan glo yn Aberystwyth – dyna'r dacteg gyfrwys. Cawsom ein dau ein cadw mewn celloedd dros nos. Ces i fy rhyddhau'n ddiseremoni drannoeth a'm cludo adre mewn car heddlu.

Wyddwn i ddim ar y pryd i hanner cant o bobl gael eu carcharu y noson honno – a'u rhyddhau i gyd yn ddigyhuddiad. Ymhen amser daeth 'Cyrch Sul y Blodau' i ddod yn un o'r penodau mwyaf cywilyddus ac aflwyddiannus yn hanes yr heddlu yng Nghymru. Des i ag achos yn eu herbyn nes ymlaen, ac ennill £1,000 o iawndal am arestio ar gam. Ond nid oedd yr arian yn gwneud iawn am brofiad mor erchyll nac am ymyriad mor dreisgar yn ein bywydau personol.

Enid Gruffudd

**Pwysau gwleidyddol**
Cefais fy arestio bore wedi cyrch Sul y Blodau yn y Llyfrgell Genedlaethol, lle roeddwn yn gweithio, ar amheuaeth o losgi tai haf. Chwiliwyd fy nesg a fy llety – yr Emporiwm – yn Nhal-y-bont. Wedyn cefais fy nghadw yn y ddalfa yn Aberystwyth weddill y dydd. Holwyd fi os oeddwn yn adnabod hwn a'r llall ac os oedd gen i syniad pwy oedd yn gyfrifol am yr ymgyrch losgi tai haf. Pysgota yr oeddynt. Roedd y profiad yn un eitha brawychus: fod modd i'r heddlu arestio rhywun ar amheuaeth heb y mymryn lleiaf o dystiolaeth. Cefais ddeall gan gyfaill o'r heddlu ychydig yn ddiweddarach mai ymateb oeddynt i bwysau gwleidyddol.

Glyn Parry

**Croesholiad bygythiol**
Bues i mor ffodus â bod yng Ngholeg Bangor ganol y chwedegau, oedd yn gyfnod cyffrous o hwyl a gwrthryfel. Sai'n gwybod faint o beintiau (o gwrw gwan iawn) yfais i ym Mangor Uchaf yn trafod y Chwyldro a Chymru Rydd. Bues i hefyd ym mhrotestiadau cyntaf Cymdeithas yr Iaith, oedd hefyd yn fagwrfa i syniadau radical. Ond 'wnaeth fy addysg wleidyddol go iawn ddim dechrau tan y Pasg 1980, yn Nhal-y-bont.

Agorodd cyrch Sul y Blodau fy llygaid i realiti grym y wladwriaeth, a'r twyll sydd y tu ôl i fywyd bob dydd. Na, dych chi DDIM yn ddieuog nes eich profi'n euog. A maen nhw'n gallu eich taflu i lawr – er yn 'ddieuog' – ar wely caled mewn cell heb eich sgidiau na'ch sbectol a bygwth y croesholiad 'mwyaf anfarwol gawsoch chi yn eich bywyd erioed' arnoch chi. Ac yn gallu gwrthod eich hawl i gael cyfreithiwr, hyd yn oed.

Mewn gair, maen nhw'n gallu gneud fel maen nhw moyn oherwydd – fel y dywedodd Almaenwr craff o'r enw Max Weber – gan y wladwriaeth y mae'r monopoli ar drais cyfreithlon.

Robat Gruffudd






**Gan fod popeth wedi newid yn ystod yr wythnosau diwethaf, dyma rai nodiadau am y sefyllfa yng Nghletwr ynghyd â gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yno.**


Jules yn paratoi bocsys bwyd i'w dosbarthu

Mae'r Caffi wedi cau ers sawl wythnos, ac mae'r rhaglen o ddigwyddiadau wedi dod i ben am y tro.

Ond, y peth pwysig yw fod y siop yn dal **AR AGOR**. Bu'n rhaid inni newid ein trefniadau, ond diolch i Karen a gweddill y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n dal i weithio drwy'r argyfwng (ac i'n cyflenwyr sy'n dal i ddod), mae'r drysau yn dal ar agor ac mae bwyd ar y silffoedd.

Cyfyngwyd yr oriau agor: mae'r siop ar agor **rhwng 9.00 a 5.00 o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn**, ond ar gau ar ddydd Sul.

Dim ond tri chwsmer ar y tro sy'n cael dod i'r siop.

Dydyn ni ddim yn hoffi derbyn arian parod bellach. Mae'n well gennym gael cardiau (digyffwrdd os oes modd) a chyfrifon Cletwr, ond fe dderbyniwn arian parod os oes gwir angen. Ceir manylion ar sut i agor cyfrif ar *www.cletwr.org*.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth archebu. Os anfonwch archeb i mewn, cewch naill ai ddod i'w chasglu o du allan i'r siop ymhen awr neu ddwy, neu, os nad oes modd i chi ddod, fe all gwirfoddolwr ddod â phopeth at eich drws. Ar hyn o bryd, dim ond


Cyfarfod Bwrdd Cletwr yn cael ei gynnal ar *Zoom*.

ym mhlwyf Llangynfelyn y mae'r gwasanaeth cludo a dosbarthu ar gael, ond efallai y byddai modd i nifer o bobl yn Nhal-y-bont anfon archeb i mewn ar yr un pryd a chael rhywun o Dal-y-bont i gasglu a dosbarthu popeth.

Mae'r lefelau stoc yn amrywio o ddydd i ddydd, gan ddibynnu ar beth sydd ar gael gan ein cyfanwerthwyr, ond rydym wedi ymestyn ein dewis o rai pethau, cig ffres (gan Gigydd Bow Street a Rob Rattray) yn arbennig. Mae manylion am yr hyn sydd ar gael bob dydd yn cael eu postio ar ein tudalen *Facebook* bob bore, ac yn cael eu he-bostio i bobl sydd ar ein rhestr. Gellwch ychwanegu eich enw at y rhestr i gael y newyddion i gyd ar wefan *cletwr.com* .

Nawr at bwt o newydd da! Nos Wener, 10fed o Ebrill, bydd modd archebu a chasglu pizza gan 'Slice' o'r maes parcio (ond rhaid ichi fynd ag ef yn syth adref). Hefyd, mae Rachel (ein trefnydd digwyddiadau) yn ceisio trefnu digwyddiad! Ond ar-lein, wrth gwrs. Rhyw fath o sesiwn/gig/*open mic* ar *Zoom*, gobeithio. Bydd mwy o fanylion ar *Facebook* yn fuan..

Mae'r gwaith gweinyddol yn parhau wrth gwrs, ond ar-lein. Cynhaliwyd cyfarfod y Bwrdd yn ddiweddar, drwy fideo *Zoom*. Profiad diddorol...

Mae'r sefyllfa bresennol wedi dangos i ni i gyd pa mor bwysig yw 'Cymuned'. Mae'n amser anodd iawn i bawb, ond diolch i ymdrechion nifer o bobl, rydym yn gallu ymdopi. Rydym yn lwcus dros ben cael byw mewn cymuned mor gefnogol. Gobeithio, pan fydd hyn oll y tu cefn inni, y cawn adeiladu ar hyn i greu cymuned gryfach byth, ond, am y tro, mae'n bwysig inni ddefnyddio a chefnogi ein busnesau bach lleol.

Nigel Callaghan

## Caru Gwenyn: mae ein peillwyr angen eich help chi!

Mae'r Cletwr yn gobeithio gwneud cais cyn bo hir i gael ei achredu o dan Gynllun Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru. Cynllun arloesol yw hwn i hybu peillwyr o bob math ledled Cymru ac elfen bwysig o'r cynllun yw cael y gymuned i gymryd rhan.

Ydych chi'n gwybod bod nifer ein pryfed peillio – gan gynnwys pob math o wenyn, gwenyn meirch, pryfed hofran, ieir bach yr haf, gwyfynod a chwilod – wedi dirywio'n ddychrynllyd dros y blynyddoedd diwethaf? Dyma'r pryfed rydyn ni'n dibynnu arnynt i beillio llawer o'n cnydau, llysiau a ffrwythau hanfodol yn ogystal â'r planhigion blodeuol sy'n harddu ein gerddi a chefn gwlad.

Peillio yw'r broses lle mae DNA gwrywaidd planhigyn blodeuol ar ffurf paill yn cael ei gludo i ran fenywaidd blodyn ar blanhigyn arall tebyg (neu ar yr un planhigyn) i alluogi'r planhigyn i atgenhedlu.

Ar hyn o bryd, pan fydd cymaint ohonon ni'n treulio mwy o amser nag arfer gartre ac yn ein gerddi, dyma gyfle arbennig i roi help llaw i fyd natur! Beth bynnag yw maint eich gardd chi, gallwch chi helpu'r creaduriaid hollbwysig yma drwy, e.e:

tyfu planhigion y maen nhw'n eu hoffi ac sy'n blodeuo ar wahanol adegau yn y flwyddyn

peidio â defnyddio plaladdwyr na chwynladdwyr

gadael i ran neu rannau o'ch gardd dyfu ychydig yn 'wyllt'

darparu safleoedd nythu iddyn nhw

Am wybodaeth bellach, gweler:

https://garddfotaneg.cymru/science/saving-pollinators/

https://www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/plants-for-pollinators

https://www.foxleas.com/

Unwaith y bydd y byd ar ei echel eto, byddwn ni'n cynnal digwyddiadau yn y Cletwr i hybu peillwyr, felly cadwch lygad amdanyn nhw! Diolch!



# Tîm Talwrn Tal-y-bont yn torri tir newydd

**Deilliodd tîm Talwrn Tal-y-bont o wersi cynganeddu dan arweiniad Gwenallt Llwyd Ifan, ac mae'r tîm wedi cystadlu ar 'Talwrn y Beirdd' Radio Cymru ers sawl blwyddyn. Yn wir, yn 2016 fe gyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol, yn union yr un fath â thîm pêl-droed Cymru yn yr Ewros! Ond fel yr Ewros, a phopeth arall, mae'r coronafeirws hefyd wedi effeithio ar y Talwrn. Y bwriad yn wreiddiol oedd cynnal a recordio'r ornest rhwng tîm Tal-y-bont a thîm y Glêr yn Theatr Arad Goch, ond deuddydd cyn hynny fe ddaeth hi'n amlwg y byddai'n ddoethach canslo. Fodd bynnag, fe benderfynodd Radio Cymru wneud arbrawf, a threfnodd Dwynwen Morgan (Allt-goch gynt), sy'n gynhyrchydd y rhaglen, i recordio cerddi beirdd Tal-y-bont a beirdd y Glêr dros y We. Bu'r arbrawf yn llwyddiannus, ac roedd lleisiau Gwenallt, Phil Davies, Anwen Pierce, Phil Thomas, Emyr Lewis a Delyth Ifan i'w clywed yn glir fel cloch. Y Glêr enillodd yr ornest, a dymunwn yn dda iddynt yn y rownd nesaf.**

I'r rheini a gollodd y rhaglen, dyma rai o gerddi'r tîm:

**Trydargerdd (sef cerdd gaeth neu rydd sydd, fel un o negeseuon Twitter, heb fod dros 140 o nodau cyfrifiadurol):**
**Neges yn Apelio am Dystion**

Killing fields Cambodia

Mae yma dwr o gegau mud
yn erfyn arnom gofio;
ac er daw tystion o ben draw'r byd,
mae'n gymaint haws anghofio.

Phil Thomas

Os gwelsoch pwy a dynnodd lun
mwstásh dan drwyn y meuryn,
cofiwch ddweud taw Banksy wnaeth
a'i fod yn gelf arobryn.

Gwenallt Llwyd Ifan

Mae un ar goll, yn ôl y sôn,
Bu chwilio dyfal ar bob lôn,
Diflannodd Cairns, sdim byd i'w wneud,
Os gwelsoch ef, plîs peidiwch dweud.

Phil Davies

**Limrig yn cynnwys y llinell 'Rhaid cadw o hyd at amserlen'**

Rhaid cadw o hyd at amserlen,
dwedes wrth fos yr awyren.
Rhaid myned i Baku
a dod 'n ôl o fan'cw
i'r semis yn nhalwrn Llanwnnen.

Phil Thomas

Rhaid cadw o hyd at amserlen,
Te deg am baned a chacen,
Yna lefnsies i ddilyn,
Cyn cinio bach sydyn,
A phwdin reit flasus i orffen.

Phil Davies

Rhaid cadw o hyd at amserlen
cyflwyno ein tasgau i'r rhaglen.
Ond tra bod y Glêr
yn dîm llawn o sêr,
'dyw amser ddim yn eu ffurfafen.

Gwenallt Llwyd Ifan

**Cywydd (heb fod dros 12 llinell): Cymod**

Cymod (wrth werthu'r cartre)

Er hwb yr holl roi heibio,
rhoi trefen gymen ar go',
ei drwch atgofion a drodd
fis Ionawr yn fis anodd;
gwn i'n nod o ganu'n iach
heddiw ei droi'n anoddach.
Mygu wna'r rhannu gor-hael
ofan y colli gafael,
a'r rhoi pen ar orffennol
dry yn ofn y di-droi-'nôl.
Heno gwn na fedraf i –
fy hunan sy'n ei feini.

Anwen Pierce

**Cân ysgafn (heb fod dros 20 o linellau a heb fod yn soned): Twll o Le**

Mae gennyf fferet hynod sy'n siarad trwy y dydd,
Yn trafod pynciau dyrys fel pryd ddaw Cymru'n rhydd.
Mae ganddo farn ar bopeth, ac mae yn fferet hy',
Ni fedrith gnoi ei dafod, mae'n debyg iawn i fi.

Wrth wrando ar y radio daw rheg bob hyn a hyn,
Fy fferet fydd yn diawlo, gan siglo'i ben yn syn.
Mae'n flin am gyflwr Aber a siopau gwag y dre,
Gan ddweud, cyn i mi ofyn, 'wel dyma dwll o le'.

Wrth glywed Boris Johnson, beth bynnag yw y pwnc,
Rhyw gyfog mawr sy'n codi gan gydio yn ei lwnc.
Mae'n darllen am Brydeindod tra'n pori ar y We,
A'i farn am hynt ein Teyrnas? 'Wel dyma dwll o le'.

Diflannodd rhyw ben bore gan redeg lan fy nghoes,
A daliais i fy ana'l am oes, am oes, am oes.
Atebwyd fy ngweddïau, a diolch wnaf i'r drefn,
Cans symud wnaeth y fferet yn araf rownd y cefn.

Yn unol â'i gymeriad, mynegodd farn yn gre',
Gan ddwedyd wrth ymadael, 'wel dyma dwll o le'.

Phil Davies

**Telyneg (heb fod dros 18 llinell): Cywiro**

Tynnaf y gardigan lac yn dyner
am ei 'sgwyddau cul,
a sychu'r tail o'r clos
oddi ar ei sliperi *suede*,
cyn mofyn y sgidiau glaw
o'r 'stafell wely
a'u gosod eto'n ôl yn eu lle
ger y drws cefn.

Gyferbyn â hi wrth ford y gegin,
a'r lletchwithdod yn lliain rhyngddom
codaf fy llwy o'r cawl i 'ngheg,
i'w hatgoffa o'r drefn.

Wedyn, o'i gweld yn syllu'n ddryslyd
ar ei hadlewyrchiad yn y drych,
cydiaf yn araf yn ei llaw,
a'i hymestyn i anwesu'r wyneb syn.

Wrth i fi gau fy nghot
yn dynn am euogrwydd fy ffarwél,
mae hi'n encilio i stafell Saesneg
ei phlentyndod,
a 'ngalw wrth enw rhyw hen fodryb ddierth.

Ond a finnau'n camu i'r awyr las o gymylau ei chof,
mae hi'n ymestyn am fy ngholer,
ac yn ei sythu.

Delyth Ifan






# CHWARAEON




Efallai na fydd ’na bêl-droed i’w wylio eto’r tymor hwn, ond o leiaf fe fydd gan Glwb Pêl-droed Tal-y-bont ddillad smart newydd i’w gwisgo yn y dyfodol. Dyma’r tîm yn y cit newydd a noddwyd gan gwmni yswiriant ‘i Farm’. Ond beth ddigwyddodd i’r lliwiau melyn a du traddodiadol?!?

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon
Rhodfa’r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy’r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i’n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221





## Cadwch o leia 6 troedfedd oddi wrth y person agosaf

## Pop-up

**Daeth anrheg newydd i gartref Golygydd Cyffredinol *Papur Pawb* yn ddiweddar sef naid faner (pop-up) a ddarparwyd am ddim i holl bapurau bro Cymru gan eu noddwyr, ‘Mentrau Iaith Cymru’.**

Bydd hwn yn ddefnyddiol iawn pan ailgydir mewn digwyddiadau cyhoeddus wedi i’r argyfwng presennol ddod i ben. Ond mae angen person tal i’w godi yn ei le. A oes ’na wirfoddolwyr tal yn barod i gymryd y cyfrifoldeb?






## Y Gair Olaf

Mi ges i e-bost hyfryd echdoe gan fenyw ifanc o’r enw Lingyi sy’n byw yn Shanghai. Ro’n i wedi gweithio gyda hi pan oedden ni’n ffilmio yn China gan mai hi oedd ein *fixer* a’n cyfieithydd ni. Roeddwn i wedi bod yn meddwl amdani ac wedi ei he-bostio ond heb gael ateb ac yr oeddwn i’n dechrau becso a oedd hi a’i theulu yn iawn. Roedd derbyn ei he-bost a chael gwybod ei bod hi, ei mab bach, a’i rhieni yn iach yn rhyddhad mawr. E-bost hyfryd, ond mae hi’n poeni’n fawr am yr hyn mae’n ei glywed am ledaeniad y coronafeirws yn Ewrop ac roedd yn cynnig danfon masgiau a moddion imi. Am garedig.

Ond sut ydyn ni wedi cyrraedd fan hyn? Cawsom ni yn y Gorllewin rybudd gan China i baratoi rhag Covid-19, ond wnaeth ein llywodraethau ni ddim gwrando gan feddwl ... meddwl beth? Allai ddim dychmygu ... ond ... meddwl y gallen ni ymdopi yn well? Llwyddodd China i reoli’r feirws mewn cyfnod cymharol fyr a hynny heb wybod dim amdano. Ond dwi’n ofan na fydd gwledydd Ewrop yn llwyddo cystal. Pam nad oedd ein llywodraethau ni wedi ymateb yn gynt, wedi paratoi yn well? Yn y bôn, rwy’n amau bod arweinwyr fel Boris Johnson yn byw – yn eu pennau – yn nyddiau yr ymerodraethau mawr ac yn credu eu bod yn arwain y byd. Yn meddwl bod ein gwasanaethau ni yn fwy soffistigedig, bod ein gwyddonwyr ni yn glyfrach, ein bod ni yn well na gwledydd y Dwyrain. Stopiwch. Deffrwch a gwrandewch ar gynghorion China, Korea a’r WHO. Arafwyd datblygiad y feirws yn China ac yn sydyn iawn yn Ne Korea gan ddefnyddio’r gorau o’r byd meddygol a’u technoleg *ultra* modern. Mae nhw wedi dweud beth sy’n rhaid ei wneud – profwch, profwch, profwch a thracio a chadw’n saff.

**Catrin M S Davies**

